

1. STATWS BRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Cyfarwyddiaeth Adar ^a (Atodiadau 2) Confensiwn Bonn (Atodiad II)
DU a Chymru	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (<i>Atodiad</i> 5 & 6) Gofal Cadwraeth Adar ^b (rhestr ambr) SoCC ^c Rhestr S74 Cymru ^d Deddf Cornchwiglen 1926 ^e
Gwynedd	CGB Eryri

1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae'r Cornchwiglen^f yn magu drwy Ewrop gyfan, ac yn hanesyddol roedd yn aderyn cyffredin ar dir moel a thyfiant byr drwy Ynysoedd Prydain i gyd. Fodd bynnag, rhwng 1970 ac 1990, gwelwyd cwtogi'r rhychwant a lleihad mewn poblogaeth rhwng 20-50% mewn 50% o wledydd Ewrop. Gostyngodd eu poblogaeth yng Nghymru yn ystod yr 19eg ganrif oherwydd newidiadau amaethyddol a chasglu wyau masnachol, gyda gwellhad yn dilyn cyflwyniad Deddf Cornchwiglen 1926. Gostyngodd y boblogaeth ymhellach o ganlyniad i amaethu dwys ar ôl yr Ail Ryfel Byd, a gaeafau caled ar ddechrau'r 1960au. Dangosodd ffigyrau 1997 fod poblogaeth gyffredinol o 200-250,000 o fewn y DU. Gostyngodd y boblogaeth yng Nghymru o 7,748 pâr yn 1987 i 3,914 yn 1992-3 a 1,689 yn 1998¹. Cynrychiola hyn ostyngiad o 77% dros 11 mlynedd.

1.3 Statws yng Ngwynedd^g

Mae'r boblogaeth fagu wedi gostwng yn fawr mewn blynyddoedd diweddar. Mae'r prif safleoedd mewn caeau arfordirol yn Ninas Dinlle ble mae rhwng 20 a 30 pâr, ac ym Morfa Madryn (Traeth Lafan) ar ffin y sir gyda Chonwy ble mae 20+ pâr. Mae nifer yr adar gaeafu yn ymddangos yn gyson, ond nid yw'r rhain yn magu'n lleol. Yn y cyfnod hwn mae hyd at 1,000 yn cael eu cofnodi weithiau mewn safleoedd arfordirol megis Traeth Lafan a Bae Foryd, ond mae'r niferoedd yn amrywio.

2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO'R RHYWOGAETH YNG NGWYNEDD^h

- Newidiadau mewn ymarferion amaethu, yn cynnwys draenio a gwella porfa sy'n arwain at laswellt yn tyfu'n gynt, sy'n ei wneud yn anaddas i gornchwiglod fagu.
- Mae'r cynnydd mewn defaid yn hytrach na gwartheg ynghyd â dwysedd stocio uwch â phori mwy dwys yn gadael nythod yn fwy agored i'w hysglyfaethu, ac mae'r niferoedd stoc uwch hefyd yn golygu cynnydd mewn colledion oherwydd eu bod yn sathru'r nythod.
- Mae'r gostyngiad mewn ffermio cymysg/ âr yn yr ardal wedi cyfrannu hefyd at y lleihad mewn niferoedd. Ychydig iawn o ffermio âr sydd yng Ngwynedd yn awr.

^a Cyfarwydddeb Cyngor 79/409EEC Zil o Ebrill 1979 ar gadwraeth adar gwyllt

^b Statws poblogaeth adar yn y DU – Gofal Cadwraeth Adar: 2002 - 2007, rhestr ar gael o wefan Cydbwyllgor Gwarchod Natur

^c Rhestr Gofal am Gadwraeth Rhywogaethau y DU

^d Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wyllt yng Nghymru - Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol. Hawlfraint y Goron 2003.


^e Cyflwynwyd i leihau casglu wyau Cornchwiglod er mwyn eu bwyta

^f *Vanellus vanellus*

^g O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb

^h Gweler hefyd CGCau cysylltiedig am ffactorau mwy cyffredinol sydd yn effeithio ar gynefinoedd y rhywogaethau yma

- Mae'r cynhyrchedd isel iawn mewn mannau magu yn y sir, fel arfer yn llai nag un cyw i bob pâr ar gyfartaledd, gyda rhai nythod yn methu'n llwyr. Mae hyn o ganlyniad i ysglyfaethu wyau a chywion gan frain, gwylanod a llwynogod, er fod tywydd drwg yn ystod y gwanwyn yn gallu bod yn ffactor. Mae aflonyddu gan bobl neu gynydd mewn stoc yn codi'r tebygolrwydd fod nythod yn cael eu gadael yn agored i ysglyfaethu. Gall cynhyrchedd cywion gael ei leihau hefyd gan gywion yn boddi mewn ffosydd serth.
- Gall gaeafau caled, megis 1962-63, achosi gostyngiad mewn poblogaeth, ond ni fu hyn yn ffactor yn y blynyddoedd diweddar.



3. CGR A CGC CYSYLLTIEDIG YNG NGWYNEDD

Glaswelltir sych asid yr ucheldir, Dolydd gwair a porfeydd yr iseldir, Gwastadeddau lleidiog, Morfa bori arfordirol a gorlifdirol, Morfa heli arfordirol.

Adar tir y fferm.

4. GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mae nifer o ddynodiadau'n berthnasol i'r ddau safle allweddol i gornchwiglod yng Ngwynedd, naill ai'n ardaloedd ble y gwyddys fod yr adar yn magu neu ardaloedd cyfagos sy'n bwysig ar gyfer bwydo yn y gaeaf: ymgeisydd am ACA Abermenai i Dwyni Aberffraw, SoDdGA Morfa Dinlle, SoDdGA Y Foryd, GNL Y Foryd, ymgeisydd am ACA Afon Menai a Bae Conwy, AGA Traeth Lafan, SoDdGA Traeth Lafan, GNLI Traeth Lafan (Morfa Madryn).

4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Cynhaliodd y Gymdeithas Frenhinol er Diogelu Adar (CFGa) Cymru Brosiect Adfer Cornchwiglod 3 blynedd, wedi eu gyllido gan arian Ewrop, i geisio gwyrddroi y dirywiad fu mewn niferoedd cornchwiglod yng Nghymru trwy ddyfeisio arferion amaethyddol newydd, neu trwy addasu'r arferion presennol.
- Mae'r gwaith hwn yn parhau dan brosiect Onid yw Adar Cymreig yn Wych (Aren't Welsh Birds Brilliant project), a ddechreuodd yn ystod 2003, wedi ei gyllido gan arian Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd a chan nifer o bartneriaid yn cael eu harwain gan yr CFGa, ac mae'n cynnwys y cornchwiglen fel un o'i 7 rhywogaeth ffocal.

- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cynnwys presgripsiynau rheoli priodol ar gyfer magu cornchwiglod yng nghynllun amaeth-gadwraethol Tir Gofal.
- Y cornchwiglen yw un o'r rhywogaethau sy'n gymwys ar gyfer cyllideb o Gynllun Rhywogaeth Her Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

4.3 Arolygu, ymchwilio a monitro

- Mae'r Ymddiriedolaeth Adaryddol Brydeinig a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar wedi cynnal arolygon cornchwiglod yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- MaeCymdeithas Adarydda Cambria yn cyhoeddi cofnodion yn Adroddiad Adar Cambria.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Cynnal poblogaeth fagu o gornchwigold yng Ngwynedd.
2. Annog ail-goloneiddio mewn ardaloedd ble mae cofnod o hanes diweddar o gornchwiglod yn magu.

6. GWEITHREDU ARFAETHEDIG

Côd	Gweithredu	Partner(iaid) ⁱ
Polisi a Deddfwriaeth		
1	Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif yn gytûn a chadwraeth y gornchwiglen TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd		
2	Hybu a chefnogi cynlluniau grant yn cynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn ac/ neu defnyddio cytundebau rheolaethol ble'n briodol er mwyn sicrhau rheolaeth ffafrïol o diroedd bwydo a magu'r cornchwiglenod, yn cynnwys caeau cyfagos, yn cymryd i ystyriaeth anghenion rhywogaethau a chynefinoedd CGBLI cysylltiedig ⁱ TARGED/AMSERLEN: I'w osod. Cyfredol	CCGC, CT, AACCG, GCFBG, UAC, CG, UCF, YG, CFGA
3	Hybu a chefnogi cynlluniau grant yn cynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn ac/ neu cytundebau rheolaethol ble'n briodol i annog yr atgyweiriad o safleoedd magu addas mewn ardaloedd gyda cofnodion hanesyddol diweddar o gornchwiglod yn magu, gyda'r bwriad o annog ail-goloneiddio, yn cymryd i ystyriaeth anghenion rhywogaethau a chynefinoedd CGBLI cysylltiedig. TARGED/AMSERLEN: I'w osod. Cyfredol.	CCGC, CT, AACCG, UAC, GCFBG, CG, UCF, YG, CFGA
4	Chwilio am arian ar gyfer rheolaeth tir drwy ddatblygu cynllun grant bioamrywiaeth, gan gynnwys grantiau ar gyfer rheolaeth addas, atgyweiriad ac/neu creu cynefin bwydo ar gyfer cornchwiglod. TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2005	CG, Partneriaid perthnasol
Cyngor		
5	Cynnig cyngor ar opsiynau rheoli priodol i berchnogion tir / rheolwyr mewn ardaloedd ble mae cornchwiglod yn bresennol neu ble mae poblogaethau cyfagos. TARGED/AMSERLEN: I'w osod. Cyfredol	CFGa, CCGC, AACCG, GCFBG, CG
Arolwg, ymchwil a monitro		
6	Monitro'r holl safleoedd magu y gwyddys amdanynt yn flynyddol TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CFGa, YAP

ⁱ Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gydag ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

Cyfathrebiaeth a chyhoeddusrwydd		
7	Codi proffil cyhoeddus ac ymwybyddiaeth gyffredinol o'r cornchwiglen a'i anghenion gyda ffermwyr lleol, rheolwyr tiroedd a'r cyhoedd trwy fynychu sioeau amaethyddol a digwyddiadau, drwy'r cyfryngau, a thrwy gynhyrchu/ rhannu deunyddiau cynghori/ gwybodaeth i dirfeddianwyr TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CFGA, CCGC, CG,
8	Annog adarwyr a pherchnogion tir i gofnodi cornchwiglenod yn magu a monitro poblogaethau'r gaeaf trwy fynychu sioeau amaethyddol a digwyddiadau, drwy'r cyfryngau, a thrwy gynhyrchu/ rhannu deunyddiau cynghori/ gwybodaeth TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CAC, YAP, CFGA

7 PARTNERIAID A CHYFLEON

7.1 Prif bartner ar gyfer CGR

Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

7.2 Partneriaid allweddol

Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Llywodraeth Cynulliad Cymru) (AACCG)

Cymdeithas Adarydda Cambria (CAC)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CT)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Cyngor Gwynedd (CG)

Grwp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCF)

Ymddiriedolaeth Adarydda Prydain (YAP)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

7.3 Cyfleon

Gwirfoddolwyr, myfyrwyr, undebau amaethyddol, Perchnogion a rheolwyr tir, cymdeithasau adara.

8 DIOLCHIADAU

Prif awdur: Rhion Pritchard (CAC)

Ymgynghorwyr: Sian Whitehead (CCGC), Chris Wynne (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru), Haydn Hughes (CG)

Darluniau llinell: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, AAS: Ardaloedd Amgylchedd Sensitif GNLI: Gwarchodfa Natur Lleol, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, AGA: Ardal Gwarchodfaeth Arbennig, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, JNCC: Cyd-Bwyllgor Cadwraeth Natur

Fersiwn 1, 2004

¹ Wilson, A.M., Vickery, J.A. & Browne, S.J. (2001) Numbers and distribution of Northern Lapwings *Vanellus vanellus* breeding in England and Wales in 1998. *Bird Study* 48: 2-17.